CYFIEITHIAD O YMATEB LLYWODRAETH SAN STEFFAN I LYTHYR CADEIRYDD Y CYNGOR

10 o Ragfyr, 2021

Annwyl Gynghorydd Glyn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Tachwedd at y Gwir Anrhydeddus Kwasi Kwarteng AS, ynglŷn a'r cynnig i gydnabod Dydd Gŵyl Ddewi yn ffurfiol fel gŵyl banc yng Nghymru. Rwyf yn ymateb gan bod y mater yn disgyn o fewn fy mhortffolio gweinidogol.

Tra ein bod yn gwerthfawrogi bod pobl Cymru eisiau dathlu eu nawdd sant, mae mwy o bobl yn gweithio ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr nag oes rhwng yr Alban a Lloegr. Gallai'r integreiddio agosach hyn arwain at amharu mwy ar fusnes. Pe byddai ganddom wyliau banc ar wahân yng Nghymru a Lloegr, mae'n anodd rhagweld yr effaith a fyddai hynny yn ei gael ar weithwyr a busnesau.

Tra byddai gŵyl banc ychwanegol o fudd i rai cymunedau a sectorau, byddai'r gost o ŵyl banc ychwanegol i'r economi yn parhau'n sylweddol. Mae asesiad a wnaed yn dilyn yr ŵyl banc ychwanegol ar gyfer y Jiwbili Diemwnt yn 2012 yn arddangos (ar draws y DU yn ei gyfanrwydd) bod y gost i'r economi o'r ŵyl banc ychwanegol hwnnw oddeutu £1.2 biliwn.

Mae pob setliad datganoli unigol wedi'i datblygu gan ystyried y cefndir o'r gwahanol hanes a'r systemau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol a chyfreithiol. Mae gwahanol ffactorau angen ystyriaethau ar wahân. Nid yw'r hyn sy'n gweithio mewn un lle yn gweithio mewn man arall pob tro ac ni ddylem dybio mai datganoli yw y datrysiad cywir oherwydd ei fod wedi'i ddatganoli mewn man arall.

Am y rheswm hwn, nid oes gan y Llywodraeth gynlluniau cyfredol i newid y trefniadau sydd wedi'u hen sefydlu a'u derbyn ar gyfer gwyliau banc yng Nghymru.

Mae Llywodraeth y DU yn parhau'n ymrwymedig i gyd-weithio hefo pob un o'r Llywodraethau Datganoledig er mwyn sicrhau bod sefydliadau'r DU yn gweithio ar y cyd fel un DU. Rydym yn gwerthfawrogi'r gweithio agos parhaus efo Llywodraeth Cymru tra hefyd yn parchu ei natur datganoledig, er mwyn sicrhau ein bod yn adeiladu economi gref a mentrus ar draws y Deyrnas Unedig.

Diolch eto am roi'r amser i ysgrifennu ataf.

Yn gywir,

**PAUL SCULLY AS**
Gweinidog ar gyfer Busnesau Bach, Defnyddwyr a Marchnadoedd Llafur
Gweinidog dros Lundain